# Adrodd Sero Net: Allyriadau Sector Cyhoeddus Cymru 2025

**Trosolwg**

Bob blwyddyn, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn mesur ac yn adrodd ar eu hallyriadau carbon, i olrhain cynnydd tuag at uchelgais Sero Net y Sector Cyhoeddus 2030. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Sector Cyhoeddus mewn sefyllfa dda i fod ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd. Yn 2025, adroddodd 82 o sefydliadau ar eu hallyriadau yn wirfoddol, i fyny o 47 yn 2020.

Yn 2025, cynhyrchodd Sector Cyhoeddus Cymru tua 3,958 cilo tunnell o’r hyn sy’n cyfateb i garbon deuocsid ($ktCO_2e$) – sy'n cyfateb i allyriadau gwresogi blynyddol 1.4 miliwn o gartrefi. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 12% yn allyriadau Sector Cyhoeddus Cymru o'i gymharu â 2024.

| | Allyriadau, 2025 ($ktCO_2e$) | Cyfran o gyfanswm ôl troed 2025 | Newid ers 2024 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr allyriadau | 3,958 | 100% | +12% |
| **Dadansoddiad yn ôl categori allyriadau** | | | |
| Cadwyn gyflenwi | 2,963 | 75% | +16% |
| Adeiladau | 546 | 14% | +<1% |
| Trafnidiaeth | 430 | 11% | +4% |
| Nwyon meddygol | 11 | <1% | +9% |
| Gwastraff | 8 | <1% | -57% |

Nid yw'r cynnydd yng nghyfanswm yr allyriadau yn golygu bod y sector cyhoeddus yn dod yn ddwysach o ran carbon. Mae llawer o'r newid yn cael ei ysgogi gan fwy o sefydliadau sy’n adrodd sy'n cymryd rhan (cynnydd o 74% ers 2020, a 4% ers 2024), data mwy cyflawn a setiau data cenedlaethol wedi'u diweddaru (a gynhyrchwyd gan DESNZ a Defra) ar ddwysedd carbon economi'r DU.

**Allyriadau'r gadwyn gyflenwi**

Mae cyfanswm allyriadau'r gadwyn gyflenwi (y rhai sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir) wedi cynyddu 16% rhwng 2024 a 2025, o 2,559 i 2,962 kt$CO_2$e. Mae hyn yn cael ei ysgogi gan ddwysedd carbon economi'r DU (cynhyrchu carbon deuocsid fesul punt a wariwyd (kg$CO_2$e/£)), a chynnydd chwyddiant mewn gwariant yn y Sector Cyhoeddus.

Cynyddodd gwariant y sector cyhoeddus 1% dros y flwyddyn ddiwethaf, tra bod dwysedd allyriadau nwyddau a gwasanaethau a brynir wedi codi 15%. Mae hyn yn dangos bod y cynnydd o 16% mewn allyriadau yn bennaf o ganlyniad i newidiadau yn setiau data dwysedd carbon y DU, nid newidiadau ym mherfformiad carbon cyflenwyr neu sut mae cyrff cyhoeddus Cymru yn prynu nwyddau a gwasanaethau.

Mae dulliau cyfrifo allyriadau cyfredol yn sensitif iawn i ffactorau macroeconomaidd ac yn tynnu sylw at pam y dylai'r Sector Cyhoeddus symud ymlaen tuag at ddefnyddio data allyriadau cyflenwyr a chynhyrchion penodol yn y dyfodol.

**Allyriadau’r defnydd o adeiladau**

Mae cyfanswm allyriadau o adeiladau gweithredol yn yr ystâd gyhoeddus wedi codi llai nag 1% ers 2024, gan gynyddu i 546 kt$CO_2$e. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd cymedrol iawn yn y defnydd o ynni: cynyddodd y defnydd o drydan 2% a'r defnydd o nwy naturiol 1%.

Mae'r cynnydd mewn sefydliadau sy’n adrodd yn helpu i esbonio'r cynnydd bach mewn allyriadau adeiladau. Wrth edrych ar y defnydd o ynni cyfartalog fesul sefydliad, gostyngodd y defnydd o ynni tua 2.5% rhwng 2024 a 2025.

## Allyriadau trafnidiaeth

Cynyddodd cyfanswm allyriadau trafnidiaeth 4% rhwng 2024 a 2025, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn allyriadau fflyd a chymudo staff. Cynyddodd allyriadau fflyd 7% i 225 kt$CO_2$e, a chynyddodd allyriadau cymudo 4% i 142 kt$CO_2$e. Mewn cyferbyniad, arhosodd allyriadau yn sgil gweithio gartref yr un fath, a gostyngodd allyriadau teithio busnes am y tro cyntaf ers 2022, gan ostwng 6% i 34 kt$CO_2$e.

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Ariannir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ("GYLIC") gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Cyflawnir GYLIC gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y "Partneriaid Cyflawni"). Mae'r adroddiad hwn (yr "Adroddiad") wedi cael ei lunio gan y Partneriaid Cyflawni ac, er bod y farn a fynegwyd ynddo yn cael ei rhoi yn ddidwyll yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, nad yw'n atebol am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegwyd yn yr Adroddiad; (ii) bwriad yr Adroddiad yw darparu arweiniad cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai unrhyw un sy'n cael yr Adroddiad ddibynnu arno yn lle cael eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) felly dylai unrhyw berson sy'n cael yr Adroddiad hwn gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu gyngor proffesiynol perthnasol arall i'r graddau y mae angen arweiniad penodol arno ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu ymatal rhag eu cymryd, mewn cysylltiad ag unrhyw brosiect, menter, cynnig, ymwneud ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gall gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad fod yn berthnasol; a (iv) nid yw'r Partneriaid Cyflawni yn atebol mewn cysylltiad â'r Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad sy'n ymwneud â'r Adroddiad.